CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 1 TACHWEDD 2011

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
W T Owen, H Edwards, W R Owen, M Powell Jones, A W Bohana, G Parry, A Kirk
M Thomas, G Thomas, W L Davies, A Roberts, G Tho mas, Ll ab Alwyn

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Parch R Donaldson Caplan Y Maer

1. Ymddiheuriadau

Cyng H W Roberts (ysbyty) Cyng A Y Williams (salwch)

2. Cyhoeddiadau'r Maer

- Dathlu pen-blwydd Maggie Lissie Parry yn 100– diolch i'r Dirprwy faer
- Agor y siop newydd lawr grisiau
- Conswl Mygedol y Swistr Ruth Thomas-Lehmann wedi ymweld a'r swyddfa

Atgoffa pawb am drefniadau Sul y cofio ag ar Y M aes am 11 ar yr 11.11.11

3. Datgan Buddiant Personol

H Edwards – cofnodion panel cyllid cais Bara Caws
I C Thomas – cofnodion panel cyllid cais Sbarc
W L Davies – cofnodion panel cyllid cais sbarc a Cruze
W T Owen – cofnodion panel cyllid cais sbarc a pobl Peblig a chynllunio

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

(gadawodd Cyng G Parry yn ystod y drafodaeth ar gofnodion panel Cyllid am 6.20)

I gadarnhau y cofnodion canlynol: -

i. Cyngor, 18 Hydref 2011
ii. Pwyllgor Adloniant 18 Hydref 2011
iii. Panel Cyllid a Staff 25 Hydref 2011

Penderfynwyd

i. Ar ôl newid ateb i gwestiwn Cyng. Huw Edwards – derbyn fel rhai Cywir
ii. Derbyn fel rhai cywir
iii. Gyda'r newidiadau canlynol

Ceisiadau ariannol - £150 i Bara Caws a

Gofyn am fantolen Sbarc (dim Galeri) cyn cyfrannu . (gadawodd Cynghorwyr I C Thomas, W T Owen a W L Davies ar gyfer yr eitem yma)(W R Owen yn atal ei bleidlais)

Eitem 5 - Biniau baw cwn gofyn i Cyngor Gwynedd dalu am un bin i Feed my Lambs.

Eitem 7- Cronfa Nadolig Y Maer – (Argymhelliad i'r Maer)prynu tin o fisgedi a tin o siocledi a rhai Diabetic i bob ward a bob cartref er mwyn lleihau costau

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd

Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cysoni cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Adroddiad gan y Clerc o'r Cynhadledd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a diolch am yr wybodaeth

10. Adroddiad ar lafar gan Cyng. M. Thomas o'r noson rhwng Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr Thref a Chymuned

Penderfynwyd

Oherwydd gwaeledd yn methu mynd felly dim adroddiad

11. Fforwm Gwynedd

Cyfarfod blynyddol 3 Tachwedd am 6.30 p.m. Porthmadog

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. Cronfa Loteri Fawr

(yn dilyn cynhadledd Unllais)
gwybodaeth am y cynlluniau

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13. **Diweddariad gan Cyng. A. Bohana o Gyfarfod Cynghorau Mwy 19 Hydref 2011**

Cyflwyniad gan Rhodri Thomas Cymru Cynaliadwy- copi ar y bwrdd
Lyn Llywelyn yn sôn bod Unllais yn edrych ar ffioedd ymaelodi gan bod cynghorau mwy yn cwyno am swm ymaelodi

Penderfynwyd

Derbyn a diolch

14. Peg

Rhifyn 91 - sesiynau hyrwyddo
92 - Arolwg busnes Gwynedd
Gwynedd Digidol - Newyddion diweddaraf
104 – Prosiect Astiwt

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

15. Diweddariad Cyng. A. Roberts

Cwrs Hyfforddiant

Penderfynwyd

Derbyn a diolch

16. E-bost am ddigwyddiad Llywodraeth DU

Yn Llandudno 3ydd Tachwedd 2011 - 10. - 2.00
(unrhyw un a diddordeb fynd ar liwt eu hunain)

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

17. **E-bost Cyngor Gwynedd**

Blitz – 11 Tachwedd 10 a.m. - Twthill
Bellach am 9.00yb

Penderfynwyd

Enwebu Cynghorwyr W L Davies a A Roberts i fynychu

18. **Diweddariad Cyng. W.Ll. Davies o gyfarfod y Siambr Fasnach**

Penderfynwyd

Derbyn a diolch ond trafod eitem 9 am y fflagiau yn y cyfarfod nesaf

19. Rhybudd o Gynnig gan y Cyng. Alun Roberts

Par: Lluniau yn y Siambr
Clerc yn egluro mae'r Meiri sydd yn gyfrifol am ddarparu a costau unrhyw lun ar gyfer yr Siambr. Nodwyd hefyd y gwaith caled a wnaethpwyd gan y Cyn Glerc i baratoi'r holl luniau.

Penderfynwyd

Y Meiri i barhau i baratoi fel unigolion a'r clerc i ymchwilio i m ewn i'r camgymeriad efo'r Rhyddfreinwyr

20. Cwestiynau

Beth ydi'r diweddariad ar y llun ?
Dal heb ei dderbyn

Gorffennodd y cyfarfod am 19.40

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....